# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dros dro

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** | **Gareth Williams** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Mehefin 2016 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 15.30 | 0300 200 6565 |
| | seneddmcd@cynulliad.cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Tystiolaeth mewn perthynas â Bil Cymru

(Tudalennau 1 - 6)

Yr Athro Thomas Glyn Watkin

**ICLA(5)-03-16 - Papur 1** - Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 7 - 16)

**ICLA(5)-03-16 - Papur 2** - Llythyr gan y Llywydd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â Bil Cymru, 21 Mehefin 2016

**ICLA(5)-03-16 - Papur 3** - Llythyr gan Arweinydd y Tŷ at y Llywydd ynglŷn â Chydsyniad Deddfwriaethol Bil Cymru, 20 Mehefin 2016

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Elin Jones AC, Llywydd

**National Assembly for Wales**
Elin Jones AM, Presiding Officer

Eitem 3

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
1 Caspian Point
Ffordd Caspian
Bae Caerdydd
CF10 4DQ

21 Mehefin 2016

Annwyl Alun

**Mesur Cymru**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn ein cyfarfod ar 19 Mai a chyflwyniad Mesur Cymru wedi hynny.

Rwy'n croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd i wella'r Mesur. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud arno eto i sicrhau y gall ddarparu setliad mwy parhaol.

Yn y llythyr hwn rwy'n amlinellu fy asesiad cychwynnol o'r Mesur ac rwy'n tynnu sylw at nifer o bryderon y mae angen rhoi sylw iddynt. Rwy'n siŵr y bydd rhagor o bwyntiau yn codi wrth i'r broses graffu ddechrau yn y Senedd ac yn y Cynulliad.

Rwyf wedi ei gwneud yn flaenoriaeth bod y Cynulliad yn sefydlu pwyllgor i fod yn gyfrifol am graffu ar Fesur Cymru. Gobeithiaf y gellir mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godir gan y pwyllgor, a gennyf innau fel Llywydd, drwy drafodaeth gyson ac adeiladol.

Mae'n anochel y byddwn yn anghytuno ar ambell beth, fel y confensiwn bod y Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig, a byddaf yn parhau i fynd ar drywydd y rheini drwy ddulliau eraill.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

**Yr amserlen ar gyfer y Mesur**

Mae Mesur Cymru yn ddarn sylweddol o gyfraith gyfansoddiadol a fydd yn ailwampio datganoli yng Nghymru. Fe wyddoch hefyd, wrth gwrs, fod yn rhaid i'r Cynulliad roi ei gydsyniad cyn y gall Senedd y DU basio'r Mesur. Gan gofio hynny, a'r ffaith bod lle eto i'w wella'n sylweddol, rwy'n pryderu mai dim ond dau ddiwrnod sydd wedi'u neilltuo i gyfnod pwyllgor y Mesur.

Rhaid i amserlen seneddol y Mesur sicrhau bod digon o amser wedi'i neilltuo i sicrhau y gall y Senedd drafod materion a godir gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn drwyadl. Er mwyn gwneud hynny, da o beth fyddai gohirio'r cyfnod pwyllgor tan ar ôl toriad yr haf, felly rwy'n gofyn ichi ailystyried hyn.

Yr wythnos hon, sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Hefyd, mae meysydd pwysig yn y Mesur a fydd o ddiddordeb i bwyllgorau pwnc eraill, ond nid yw'r rheini'n debygol o gyfarfod cyn mis Gorffennaf. Mae'n hanfodol bod yr amserlen seneddol yn ystyried hyn fel y gellir craffu'n drwyadl ar y Mesur pwysig hwn, a darparu setliad mwy parhaol.

**Y profion ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol**

Rwy'n croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd tuag at sicrhau model mwy ymarferol o gadw pwerau'n ôl, yn enwedig cael gwared ar y prawf angenrheidrwydd o ran cyfraith breifat a chyfraith trosedd. Fodd bynnag, o ran y cyfyngiad ar gyfraith trosedd (paragraff 4 o'r Atodlen newydd 7B sydd i'w mewnosod yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006), erys nifer o bryderon, gan gynnwys natur benagored y categorïau o droseddau na chaiff y Cynulliad eu haddasu. Gallai'r ffaith y caiff y Senedd ychwanegu at y troseddau ym mhob un o'r categorïau hynny ar unrhyw adeg olygu i bob pwrpas y byddai cymhwysedd y Cynulliad yn cael ei newid yn rheolaidd. Mae'n wir y byddai'n rhaid cael cydsyniad y Cynulliad i wneud newid o'r fath, ond ofnaf na fyddai Adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyfiawnder troseddol yn effro i hynny, ac y gallai Mesurau Seneddol gael eu cyflwyno a'u pasio heb fod y gweithdrefnau priodol ar gyfer ymgynghori ag awdurdodau datganoledig Cymru wedi eu dilyn. Felly, mae darpariaethau fel y rhain yn peryglu eglurder y setliad, ac yn peryglu'i ddidwylledd hefyd.

Un agwedd arall ar y cyfyngiad ar gyfraith trosedd sy'n fy mhryderu yw'r gwaharddiad ar allu'r Cynulliad i addasu'r gyfraith am y canlynol: “sentences and other orders and disposals in respect of defendants in criminal proceedings”. Gallai hyn, yn fy marn i, gael ei ddehongli fel darn sy'n atal y Cynulliad rhag pennu dedfrydau lleiaf neu uchaf ar gyfer y troseddau y mae'n eu creu, a rhag addasu'r

dedfrydau ar gyfer troseddau sy'n bodoli eisoes. Byddai cyfyngiad o'r fath yn gam mawr yn ôl o gymhwysedd presennol y Cynulliad ac ni fyddai'n briodol. Hyderaf nad dyna fwriad y ddarpariaeth. Rwy'n siŵr y gall ein swyddogion gydweithio i sicrhau bod cwmpas y gwaharddiad yn dderbyniol ac yn glir.

Mae'r gwaharddiad llwyr ar ddeddfu mewn unrhyw fodd sy'n "ymwneud â" mater a gadwyd yn ôl, heb unrhyw gymhwysedd ategol fel yr hyn sydd gan y Cynulliad eisoes o dan adran 108(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, hefyd yn parhau'n bryder difrifol. Rwy'n deall bod y gwaith o ddrafftio'r Mesur yn adlewyrchu Deddf yr Alban 1998, ac rwy'n derbyn hynny. Fodd bynnag, bydd y setliad yn yr Alban yn dal i fod yn ehangach o lawer na setliad Cymru ar ôl Deddf Cymru, yn bennaf oherwydd nad oes braidd dim llyffethair ar allu Senedd yr Alban i wneud cyfraith sifil a throsedd ar gyfer yr Alban. Y gwahaniaeth hwnnw yng nghwmpas y cymhwysedd "craidd" sy'n cyfiawnhau cymhwysedd ategol cyfyngedig i Gymru.

Byddwn yn croesawu trafodaethau pellach â chi am sut y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn, fel bod y ddeddfwriaeth yn glir ac yn ymarferol.

**Awdurdodaeth gyfreithiol benodol**

Mae pwrpas ac effaith y darpariaethau sy'n cydnabod cyfraith Cymru yn aneglur, ac nid oes iddynt unrhyw ddiben cyfreithiol amlwg. Fy marn i yw mai sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol benodol yw'r ateb cyfreithiol symlaf i sicrhau ffin glir ar gyfer cyfreithiau Cymru. Rwy'n cydnabod bod y gwelliannau i'r profion cymhwysedd deddfwriaethol yn rhoi mwy o eglurder ynghylch gallu'r Cynulliad i ddeddfu ar faterion troseddol a sifil a'r meysydd lle mae Llywodraeth y DU yn awyddus i sicrhau cysondeb yng nghyfreithiau Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, o ystyried bod y corff o gyfraith Gymreig ar gynnydd, nid wyf yn ystyried bod gwerth mewn darpariaeth sy'n cyfeirio'n benodol at un awdurdodaeth.

**Asesiadau effaith cyfiawnder**

Fe wyddoch, mae'n siŵr, fod yn rhaid i'r Cynulliad, yn unol â'i Reolau Sefydlog, gyhoeddi asesiad o gostau Mesurau'r Cynulliad. Felly, mae cynnwys gofyniad pellach ar y mater penodol hwn yn gwbl ddiangen ac yn groes i egwyddor bwysig i mi - sy'n egwyddor y gwn eich bod yn awyddus i'w pharchu - sef y dylai'r Cynulliad gael y pŵer i benderfynu ar ei faterion a'i weithdrefnau ei hun.

Byddai'n fwy priodol bod trafodaethau manwl ar faterion o'r fath yn cael eu cynnal drwy ddulliau rhynglywodraethol ffurfiol a bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â chostau cyfiawnder yn briodol yn y Memorandwm Esboniadol.

**Cymalau Cadw**

Dywedodd eich rhagflaenydd ei fod wedi “rhoi cyfarwyddyd i swyddogion yn Swyddfa Cymru i weithio ar restr o gymalau cadw gyda chydweithwyr o’r Cabinet, er mwyn gweld lle y gellir lleihau’r nifer o gymalau cadw a symleiddio’r rhestr.” Mae'r rhestr o gymalau cadw yn dal i fod yn helaeth ac yn gymhleth, heb unrhyw egwyddorion arweiniol, clir. Mae'n anodd asesu i ba raddau y bu lleihad a symleiddio. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi beth sydd wedi newid a sut.

Mae nifer fawr o gymalau cadw wedi'u llunio drwy gyfeirio at “bwnc” rhannau o Ddeddfau eraill. Roedd y maes hwn yn peri pryder i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Mae'r dull hwn o ddrafftio yn gwneud y Mesur yn fwy cymhleth fyth ac yn cynyddu'r ansicrwydd ynghylch hyd a lled cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Cydsyniadau Llywodraeth y DU**

Bu rhywfaint o gynnydd o ran lleihau'r cyfyngiadau a osodwyd ar y Cynulliad o gymharu â'r Mesur drafft, ac mae hynny i'w groesawu. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydsyniadau yn dal i fod yn gymhleth a maith. Maent i'w cael mewn amryw fannau yn y Mesur, gan ychwanegu at ei gymhlethdod.

Rwy'n pryderu fod y Mesur yn dal i amddifadu'r Cynulliad o'r gallu i ddileu neu addasu swyddogaethau cydamserol Gweinidogion y DU, hyd yn oed pan fo gwneud hynny yn atodol neu ganlyniadol. Byddai hyn yn gyfystyr â cham yn ôl o ran cymhwysedd presennol y Cynulliad a byddai, i bob pwrpas, yn gwrthdroi penderfyniad y Goruchaf Lys yn achos Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

Mae'r gofynion ar gyfer cael cydsyniad Llywodraeth y DU i'r Cynulliad roi neu osod swyddogaethau ar "awdurdodau a gedwir yn ôl", dileu neu addasu eu swyddogaethau, newid eu cyfansoddiadau neu roi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau sydd i'w harfer yn benodol mewn perthynas ag “awdurdodau a gedwir yn ôl” hefyd yn gyfystyr â cham yn ôl o ran y cymhwysedd presennol.

**Awdurdodau Cyhoeddus Cymru**

Mae'r Mesur yn cynnwys rhestr o "awdurdodau cyhoeddus Cymru", y bydd gan y Cynulliad gymhwysedd ar eu cyfer heb fod angen cydsyniad Llywodraeth y DU. Mae nifer o sefydliadau nad ydynt ar y rhestr hon y dylid eu cynnwys. Rwyf wedi

gofyn i'm swyddogion anfon manylion y sefydliadau sydd wedi'u hepgor at eich swyddfa.

**Darpariaethau ariannol**

Rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed i ddatganoli cymhwysedd o ran cyllid, atebolrwydd ac archwilio.  Fodd bynnag, mae sawl mater heb ei ddatrys o ran manylion y darpariaethau hyn, sy'n destun trafodaethau parhaus gyda'ch swyddogion.

Mater o bwys mawr yn y cyswllt hwn yw y dylai'r Mesur gynnwys amddiffyniad bod yn rhaid i ddeddfwriaeth Gymreig ddilynol ddarparu mai dim ond gydag awdurdodiad y Cynulliad y gellir rhyddhau cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru, ac y dylid ei ddefnyddio yn unol â'r diben yr awdurdodwyd ef.

**Darpariaethau sy'n ymwneud â threfniadau gweithredol y Cynulliad**

Rwy'n falch o weld bod rhagor o bwerau wedi'u datganoli i'r Cynulliad sy'n ymwneud â'i drefniadau mewnol.  Fodd bynnag, mae rhai darpariaethau yn cynnwys lefel ddiangen o ragnodi, megis y gofyniad i gael uwchfwyafrif ac asesiad o'r effaith ar gyfiawnder.  Rwy'n disgwyl y bydd ein swyddogion yn trafod hyn ymhellach.

**Pŵer i amrywio dyddiad Etholiadau Cyffredinol y Cynulliad**

Fel y trafodwyd yn ystod ein cyfarfod, dylai'r pwerau i amrywio dyddiad etholiad cyffredinol cyffredin a dyletswydd ar wahân i gynnig dyddiad etholiad cyffredinol anghyffredin gael eu trosglwyddo oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Llywydd (nid i Weinidogion Cymru), a dylent adlewyrchu'r darpariaethau cyfatebol yn Neddf yr Alban.

**Darpariaethau cychwyn**

Hoffwn weld rhai o'r darpariaethau gweithredol, megis diddymu darpariaethau Deddf 2006 sy'n ymwneud â chyfansoddiad pwyllgorau'r Cynulliad a'r ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad mewn perthynas ag Araith y Frenhines, yn cael eu cychwyn cyn gynted ag y bo modd.

**Pwerau i amrywio'r dreth incwm**

Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer trosglwyddo pwerau i amrywio'r dreth incwm i'r Cynulliad drwy orchymyn, heb ymgynghori ymlaen llaw â Gweinidogion Cymru

na'r Cynulliad.  Yn fy marn i, mae'n fater o egwyddor y dylid cael cytundeb y Cynulliad cyn gwneud trosglwyddiad o'r fath.

**Darpariaethau Trosiannol**

Rwy'n awyddus i sicrhau na ddylai'r broses o drosglwyddo i'r model cymhwysedd newydd effeithio ar allu'r Cynulliad i weithredu fel deddfwrfa effeithiol.  Nid yw'n briodol i Senedd y DU fod â mandad i wrthod Mesurau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod trosglwyddo.  Rwy'n arbennig o bryderus y bydd y broses graffu ar Fesurau yng Nghyfnod 1 yn cael ei chyfyngu cyn y diwrnod penodedig; neu na fydd unrhyw Fesurau o gwbl yn cael eu cyflwyno yn y tri mis cyn y "diwrnod a bennwyd" er mwyn osgoi'r risg y byddant yn methu.

Rwy'n siŵr y gallwn ni ddod o hyd i ateb fel bod y Cynulliad yn cael rhyddid i bennu ei weithdrefnau ei hun yn ystod y cyfnod trosglwyddo; a sicrhau mai bach iawn fydd yr effaith ar allu'r Cynulliad i ddeddfu.

Rwy'n edrych ymlaen at gael y cyfle i drafod y materion hyn ac eraill wrth i'r Mesur fynd rhagddo drwy'r Senedd.  Rwy'n gobeithio y gallwn weithio gyda'n gilydd mewn modd adeiladol i gael setliad sy'n ymarferol a chlir ac sy'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol y Cynulliad.

Mae copïau o'r llythyr hwn wedi'u hanfon at Brif Weinidog Cymru, arweinyddion y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a hefyd at Nia Griffith AS, Hywel Williams AS a Mark Williams AS.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

**Jane Hutt AM/AC**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Eich cyf/Your ref**
Ein cyf/Our ref

Y Swyddfa Breifat
20 JUN 2016
PO 062
Private Office

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

20 Mehefin 2016

**Bil Cymru**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes yr wythnos diwethaf, addewais roi'r newyddion diweddaraf am y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar Fil Cymru er gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor.

Byddwch yn gwybod am ddatganiad y Prif Weinidog ar 8 Mehefin yn rhoi croeso petrus i'r Bil diwygiedig. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir ein bod yn dal yn bryderus mewn nifer o feysydd am y pwerau i Gymru. Rydym yn disgwyl i welliannau gael eu gwneud i'r Bil gan Lywodraeth y DU mewn rhai meysydd. Mae yna faterion hefyd lle rydym yn parhau i negodi â Swyddfa Cymru ac adrannau eraill i wella'r Bil ond nid yw'r trafodaethau hyn wedi dod i ben eto. Yn gryno, nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i geisio cydsyniad y Cynulliad i'r Bil ar ei ffurf bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dal i ystyried manylion y Bil fel y'i cyflwynwyd a gallai fod materion pellach i'w codi gyda Llywodraeth y DU cyn hir, yn ogystal â'r rhai yr ydym eisoes wedi'u nodi.

Yn achos Bil sydd mor bwysig ac arwyddocaol i Gymru â'r Bil hwn, rydym yn credu'n gadarn na ddylid brysio'r broses LCM. Mae angen diwygio'r Bil, yn ein barn ni, cyn y gellir ei ystyried yn addas i'w ddiben, ac rydym yn credu y dylai'r Cynulliad gael y cyfle i benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol yn ystod camau diweddarach y Bil, pan fydd gwelliannau wedi'u gwneud a phan fydd bron ar ei ffurf derfynol.

Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru'n cymryd ei chyfrifoldeb dros ddilyn y Rheolau Sefydlog o ddifrif, ac mae wedi ymrwymo i osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 ar adeg pan fo'n ystyrlon gwneud hynny. Er mai'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 29 yw ei osod fel rheol cyn pen pythefnos ar ôl i fil gael ei gyflwyno, credwn ei bod yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhesymol gohirio gosod y Memorandwm yn yr achos hwn, a hefyd ohirio'r ddadl ar yr LCM, er mwyn i'r Cynulliad gael yr wybodaeth lawn a chael penderfynu ynghylch cydsyniad deddfwriaethol ar sail fersiwn o'r Bil sydd bron yn derfynol.

Mae'r cynigion ar gyfer addasu'r setliad datganoli a gyflwynir ym Mil Cymru'n cwmpasu addasiadau i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac addasiadau i swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad. Er y byddai'n rhaid ymdrin ag addasiadau i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan y broses LCM, ni fyddai hyn yn wir am addasiadau i swyddogaethau sy'n perthyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol. Mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru er mwyn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, a dylid cynnwys y rhain, ynghyd ag addasiadau i swyddogaethau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad, mewn datganiad ysgrifenedig i'w osod gan Lywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 30. Byddwn yn anelu at osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a'r datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30, tua'r un pryd, er mwyn cynnig barn gydgysylltiedig am y Bil, pan fydd wedi cyrraedd ei gamau diweddarach.


Byddai Llywodraeth Cymru, er hynny, am sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl ar hyn o bryd, yn arbennig, i hwyluso gwaith craffu'r Cynulliad ar y Bil hwn. Er mwyn gwneud popeth o fewn ei gallu i hwyluso craffu ar y Bil, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gosod Memorandwm Esboniadol Cyffredinol yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl tra bo negodiadau'n dal i fynd rhagddynt. Mantais gosod Memorandwm Esboniadol Cyffredinol ar hyn o bryd yw y bydd yn gallu ymdrin â'r holl ddarpariaethau sydd yn y Bil, yn hytrach na gorfod gwahaniaethu rhwng materion o gymhwysedd deddfwriaethol a materion sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithredol ac ymdrin â hwy yn y dogfennau ar wahân sy'n ofynnol o dan Reolau Sefydlog 29 a 30.

Bwriad y Memorandwm Cyffredinol yw amlygu'r materion allweddol yn y Bil, yn hytrach na darparu'r manylion sy'n ofynnol o dan Reolau Sefydlog 29 a 30. Gobeithiwn y bydd hyn yn fwy defnyddiol i'r pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil. Disgwylir i ddarpariaethau'r Bil newid yn sylweddol, felly nid oes fawr o werth mewn cyflwyno sylwadau ar briodoldeb pob darpariaeth unigol.

Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru osod y Memorandwm Esboniadol Cyffredinol hwn ar ddechrau Gorffennaf. Gobeithiwn y bydd yn helpu'r Pwyllgor i graffu ar y Bil.

Byddwn yn falch ichi rannu'r llythyr hwn ag aelodau'r Pwyllgor Busnes.

Cofion gorau,



**Jane Hutt AM/AC**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip